



Adran Gwaith
a Phensiynau

Archwiliad ôl- ddeddfwriaethol y Ddeddf Pensiynau 2007

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Ionawr 2015

Cm 9001



© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/pensions-act-2007-post-legislative-scrutiny>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

E-bost: harry.cunniffe@dwp.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 749 7139

Gwe ISBN 9781784254506

Rhif Adnabod 08121404 01/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad	4
Pennod 2	Crynodeb rheoli	6

Cyflwyniad

1

Archwiliad ôl-ddeddfwriaethol y Ddeddf Pensiynau 2007

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2002 sefydlwyd y Comisiwn Pensiynau i adolygu system y DU o ddarpariaeth pensiwn ac i roi cyngor ynghylch a fyddai'r system bresennol o bensiynau preifat gwirfoddol yn sicrhau canlyniadau digonol. Y Ddeddf Pensiynau 2007 oedd y darn cyntaf o fframwaith statudol ar gyfer tirwedd pensiynau'r DU, a grëwyd gan weinyddiaethau olynol, yn dilyn adroddiadau'r Comisiwn yn 2004 a 2005.

Roedd yn cynnwys mesurau a wnaeth:

- Cryfhau ac ymestyn sylw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth;
- Yn ofynnol i'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth gael ei uwchraddio yn unol ag enillion yn hytrach na phrisiau;
- Symleiddio Ail Bensiwn y Wladwriaeth;
- Cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn unol â'r cynnydd mewn hirhoedledd;
- Rhoi'r sylfaen ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol;
- Cyflwyno cynllun i drosi pensiynau lleiafswm gwarantedig i mewn i hawliau mewn cynllun pensiwn cyffredin;
- Diddymu contractio allan ar gyfer cynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig;
- Dileu rôl yr Ysgrifennydd Gwladol wrth gymeradwyo canllawiau actiwaraidd ar gyfer nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth bresennol;
- Diweddarau darpariaethau'r Ddeddf Pensiynau 2004 drwy gyflwyno llwybr arall yn y broses datrys anghydfodau ac ymestyn y Cynllun Cymorth Ariannol; a
- Sefydlu'r Awdurdod Darparu Cyfrifon Personol.

Mae llawer o'r mesurau yn y Ddeddf wedi cael eu disodli i raddau helaeth gan ddeddfwriaeth ddilynol, fel y Ddeddf Pensiynau 2011 ar yr amserlen ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth a'r Ddeddf Pensiynau 2014 ar bensiwn y wladwriaeth yn gyffredinol, tra bod yr Awdurdod Cyflenwi Cyfrifon Personol yn dirwyn i ben yn 2010. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r Ddeddf 2007, sef sicrhau bod pobl yn gwneud arbedion digonol ar gyfer eu hymddeoliad a gwneud pensiwn y wladwriaeth yn decach ac ar gael yn fwy eang, yn parhau i fod wrth wraidd y system pensiynau diwygiedig.

Crynodeb rheoli

2

Rhan 1

Yn deillio'n bennaf o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Pensiynau yn ei ail adroddiad a chanfyddiadau adroddiad yr Adran ar Fenywod a Phensiynau, gwnaeth Ran 1 o'r Ddeddf cynnwys mesurau i gryfhau a symleiddio darpariaeth pensiwn y wladwriaeth yn y DU. Yn benodol:

- Gwnaeth Adrannau 1 a 3 llacio'r amodau cyfraniad ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o fis Ebrill 2010 ymlaen, ymestyn y trefniadau gredydu i bobl sy'n gofalu am un neu fwy o bobl anabl difrifol, ac, at ddibenion cymwyster am gredydau ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol ac ychwanegol, alinio'r terfyn oedran uchaf ar gyfer y plentyn sy'n cael ei ofalu amdano. O dan y cyfraniad diwygiedig, cynyddodd canran y merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phensiwn sylfaenol llawn o ffigwr cyn-gweithredu o ychydig dros 40% yn 2009-10 i oddeutu 80% yn 2012-13. O ganlyniad i alinio'r terfyn oedran uchaf ar gyfer plentyn 12 oed at ddibenion Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol ac ychwanegol, mae tua 2 filiwn yn fwy o bobl yn cael eu credydu o bosibl at ddibenion pensiwn ychwanegol, ond mae tua 1.3 miliwn yn llai o bobl o bosibl yn cael eu credydu at ddibenion pensiwn sylfaenol.
- Gwnaeth Adran 2 gael gwared ar y gofyniad bod yn rhaid i berson hawlio eu pensiwn Categori A cyn y gellid eu priod neu bartner sifil fod yn gymwys i gael pensiwn Categori B yn deillio o'u cyfraniadau. Mae'r newid yn berthnasol o fis Ebrill 2010 i bensiynwyr presennol a phobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o'r pwynt hwnnw ymlaen. (Nid oes data ar gael ar y nifer o bobl a manteisiodd ar yr hawddfrait hon.)
- Gwnaeth Adran 4 ddiddymu cynnydd o bensiwn y wladwriaeth ar gyfer oedolyn dibynnol (fel arfer yn wraig oedran dan-pensiwn) ac eithrio ar gyfer derbynwyr presennol o fis Ebrill 2010. Cafodd hawliau presennol eu diogelu'n drosiannol hyd nes, fan bellaf, 2020. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos tua 22,000 o'r cynnydd hwn yn dal i gael ei dalu.

- Gwnaeth Adrannau 5 a 6 ddarparu ar gyfer gwarant isafswm safonol Pensiwn y Wladwriaeth, Budd-dal Marwolaeth Anafiadau Diwydiannol, a Chredyd Pensiwn sylfaenol i gael ei uwchraddio yn flynyddol o leiaf yn unol â thwf mewn enillion cyfartalog. Roedd y ddarpariaeth yn berthnasol o fis Ebrill 2008 yn achos gwarant isafswm safonol Credyd Pensiwn ac o fis Ebrill 2011 yn achos Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Budd-dal Marwolaeth Anafiadau Diwydiannol.
- Gwnaeth Adrannau 7 ac 8 ddileu'r cyswllt statudol rhwng y terfyn enillion isaf ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r gyfradd o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. O ganlyniad, mae'r terfyn enillion isaf ar hyn o bryd yn £2 yr wythnos yn is na'r gyfradd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.
- Cyflwynodd Adrannau 10, 11 a 12 ystod o fesurau sydd wedi'u cynllunio i symleiddio Ail Bensiwn y Wladwriaeth a chyflymu ei newid i gyfradd unffurf ychwanegol i Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. O 2012, cafodd groniadau amrywiol ar enillion hyd at y Trothwy Enillion Isel (ar hyn o bryd £15,100 y flwyddyn) eu disodli gan swm cronid cyfradd unffurf sydd yn (2014-15) gwerth £92 y flwyddyn ar hyn o bryd.
- Darparodd Adran 13 ar gyfer oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched i'w gynyddu: o 65 oed i 66 oed erbyn 2026, o 66 oed i 67 oed erbyn 2036 ac o 67 oed i 68 oed erbyn 2046. Mae'r amserlen ar gyfer cynyddu'r oedran i 66 oed a 67 oed wedi cael ei ddisodli gan Ddedd Pensiynau 2011 a 2014 yn y drefn honno.

Rhan 2

- Deliodd Adrannau 14 a 15 â materion sy'n ymwneud â contractio allan o bensiwn ychwanegol y wladwriaeth. Cyflwynodd Adran 14 y gallu ar gyfer cynlluniau pensiwn galwedigaethol wedi'i eithrio buddion diffiniedig i drosi hawliau croniedig aelodau i Isafswm Pensiwn Gwarantiedig (GMP) i mewn i hawliau cynllun cyffredin. Ymddengys fod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddefnyddio fawr ddim, ond mae Deddf Pensiynau 2014 wedi darparu i roi cyfarwyddyd ar drosi GMP. Gwnaeth Adran 15 ddiddymu contractio-allan ar gyfer cynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Gwnaed rheoliadau i gefnogi diddymu yn 2011 a daeth i rym ym mis Ebrill 2012, gan gyflwyno trefniadau trosiannol ar gyfer ad-daliadau Yswiriant Gwladol. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn 2015, pan fydd y trefniadau i fod i ddod i ben, ond mae adborth interim o weithrediadau Cyllid a Thollau EM yn nodi bod trefniadau yn gweithio'n dda.
- Cyflwynodd Adran 16 broses datrys anghydfod un cam lle gall pob penderfyniad cael ei gymryd gan ymddiriedolwyr neu reolwyr. Fodd bynnag, caniateir cynlluniau i gadw'r broses dau gam blaenorol os oeddent yn dymuno.
- Gwnaeth Adran 17 a'i Atodlen 5 cael gwared ar y gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo tri Nodyn Cyfarwyddyd ac un Memorandwm Technegol. Mae'r Cyngor Adrodd Ariannol bellach yn darparu'r swyddogaeth hon ac mae'n parhau i ddiweddarau a diwygio'r Nodiadau Cyfarwyddyd a'r Memorandwm Technegol.
- Mae Adrannau 18 a 19 yn mynd i'r afael â'r Cynllun Cymorth Ariannol (FAS). Darparodd Adran 18 ar gyfer ymestyn FAS drwy ddisodli taliadau sydd wedi'u lleihau'n raddol gyda swm sengl dim llai na 80% o bensiwn a ddisgwylidig unigolyn; y taliadau i ddechrau ar yr oedran pensiwn arferol, yn hytrach na 65 oed; a thaliadau cychwynnol i gael eu gosod ar 80% ac ar 45% ar gyfer goroeswr. Cyhoeddwyd estyniad terfynol FAS ym mis Rhagfyr 2007, gan gynnwys cynnydd yn y pensiwn disgwylidig o 80% i 90% a gweithredwyd y newidiadau drwy gyfres o reoliadau yn 2008 a 2009. Gwnaeth Adran 19 yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol basio rheoliadau a oedd yn cyfyngu dros dro prynu blwydd-daliadau gan ymddiriedolwyr cynlluniau cymwys a oedd yn dal i ddirwyn i ben. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Medi 2007 a dod i ben ym mis Mehefin 2008.

Rhan 3

Darparodd Rhan 3 o'r Ddeddf manylion am yr Awdurdod Cyflenwi Cyfrifon Personol. Daeth y symbyliad ar gyfer y corff hwn o'r Papur Gwyn *Cyfrifon personol: ffordd newydd i gynilo* a oedd yn glir ni ddylai cyflwyno a rheoli cynllun pensiwn galwedigaethol mawr fod yn dasg i'r llywodraeth, yn hytrach cynnig Corff Cyhoeddus Anadrannol a allai defnyddio sgiliau'r sector preifat i gynghori ar gynigion a'u gweithredu'n ddiweddarach:

- Sefydlodd Adran 20 ac Atodlen 6 yr Awdurdod Cyflenwi Cyfrifon Personol a gosod allan ei gyfansoddiad.
- Nododd Adran 21 swyddogaeth gychwynnol yr Awdurdod fel cynghori'r Llywodraeth ar gynigion perthnasol am gyfrifon personol. Cafodd yr adran hon ei diddymu gan adran 79 y Ddeddf Pensiynau 2008. Yna aeth Adran 79 (6) ymlaen i ymestyn swyddogaeth yr Awdurdod drwy ddarparu iddo bwerau gweithredol ychwanegol.
- Gwnaeth Adran 22 ddarparu bod rhaid i'r Awdurdod roi sylw i gyfarwyddyd cyffredinol yn ymwneud â rheoli Corff Cyhoeddus Anadrannol ac i egwyddorion rheoli corfforaethol da.
- Mae Adran 23 yn caniatáu ar gyfer diddymu'r Awdurdod ar adeg briodol drwy Orchymyn. Daeth y Gorchymyn Dirwyn i Ben yr Awdurdod Cyflenwi Cyfrifon Personol 2010 (SI 2010/911) i rym ar 5 Gorffennaf 2010, yn diddymu adrannau 20 a 22, ac Atodlen 6 y Ddeddf 2007. Trosglwyddwyd eiddo, hawliau, a rhwymedigaethau'r Awdurdod i NEST.

ISBN 978-1-78425-450-6
(h) Hawlfraint y Goron 2015
Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau
Ionawr 2015
www.dwp.gov.uk/cymraeg